

Datganiad Disgwyliadau

Rôl y Gwarcheidwad Plant mewn achosion gofal

Rôl y Gwarcheidwad Plant yn fras

Pan fo Awdurdod Lleol yn gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Gofal neu Oruchwylio, mae'r Llys yn penodi Gwarcheidwad Plant o Cafcass Cymru i fod yn llais i'r plentyn yn ystod yr achos ac i benderfynu ar gyfeiriad i'r achos sy'n gyson ag anghenion ac amserlen y plentyn.


Gwaith y Gwarcheidwaid Plant

- Bydd y Gwarcheidwad yn ymweld â'r plentyn, bydd yn dadansoddi'r materion dan sylw ac yn rhoi cyngor clir a phenodol i'r Llys ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen i'r plentyn.
- Tra bydd y Gwarcheidwad Plant yn cydweithio â'r plentyn, bydd yn crisialu dymuniadau a theimladau'r plentyn drwy ystod o ddulliau/ adnoddau. Hefyd, gan ddibynnu ar oedran y plentyn a faint mae'n ei ddeall, bydd yn ystyried sut orau i roi gwybod i'r plentyn am y penderfyniadau allweddol.
- Dylai'r cyngor a roddir i'r Llys fod ar ffurf Dadansoddiad Achos ysgrifenedig ond rhaid bod yn hyblyg ac, os nad yw'r achos yn gymhleth, dylid ystyried defnyddio Datganiadau Sefyllfa. Fel rheol, bydd y Gwarcheidwad Plant yn llunio hyd at ddau adroddiad, y naill ar gyfer y gwrandawriad cyntaf, a elwir yn Wrandawriad Rheoli Achos, a'r llall ar gyfer y Gwrandawriad Datrys Problemau tua diwedd yr achos. Dylid defnyddio canfyddiadau ymchwil perthnasol yn sail i'r adroddiad ac i'r argymhellion.

- Dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol y dylai Gwarcheidwaid Plant fod yn bresennol mewn gwrandawriad Llys, e.e. i roi neu i glywed tystiolaeth sy'n hanfodol bwysig i'w penderfyniadau. Mae amser ac adnoddau'n werthfawr; dylai Gwarcheidwaid roi pob cyfle posib i'r Llys eu hesgusodi os bydd presenoldeb cyfreithiwr y plant yn ddigonol. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, bydd y Gwarcheidwad wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r cyfreithiwr a bydd modd cael gafael ar y Gwarcheidwad dros y ffôn ar bob adeg.
- Bydd y Gwarcheidwaid Plant yn ystyried y lleydd mwyaf priodol i gwrdd â'r bobl sy'n rhan o'r achos. Gallai hyn fod yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth, yn swyddfa Cafcass Cymru neu yn swyddfa'r cyfreithiwr.

Cyn y Gwrandawriad Rheoli Achos, bydd y Gwarcheidwad Plant yn:

- Ystyried, o safbwynt y plentyn, y materion allweddol yn yr achos ac i ba raddau y bydd gofyn i'r Gwarcheidwad Plant fod ymwneud â'r achos. Bydd rhai achosion, lle bydd pawb yn cytuno â'r dystiolaeth, yn gofyn am ymdriniaeth lai dwys tra bydd achosion eraill, lle caiff y dystiolaeth ei herio, yn gofyn am ragor o fewnbwn.
- Penodi cyfreithiwr sy'n rhan o gynllun Achredu Cyfraith Plant Cymdeithas y Gyfraith (ac sydd felly'n arbenigwr achrededig yn y math hwn o gyfraith), i gynrychioli'r plentyn drwy gydol yr achos.
- Craffu ar ddatganiadau a thystiolaeth yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r plentyn, nodi bylchau yng ngwybodaeth yr Awdurdod Lleol, neu o ran y camau a gymerodd yr Awdurdod Lleol, a rhoi cyngor ynghylch y modd y gellir mynd i'r afael â'r bylchau hynny.



- Sicrhau bod y plentyn yn ddiogel a bod Cynllun Gofal cyfredol yr Awdurdod Lleol yn bodloni anghenion y plentyn.
- Bydd yn ystyried pa bobl, yn ogystal â'r plentyn, y mae'n rhaid siarad â nhw, e.e. aelodau'r teulu a phobl broffesiynol, gan ddibynnu ar anghenion yr achos. Gallent fod yn bobl sydd, yn ôl y plentyn, yn chwarae rhan arwyddocaol yn ei fywyd.
- Os bydd Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) yn dod yn rhan o fywyd y plentyn, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod Gwarcheidwad y Plentyn yn dod i gysylltiad â'r person hwnnw cyn gynted ag y bo modd. Daw Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhan o achos wrth i blentyn gychwyn mewn gofal ac maent yn sicrhau bod y cynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn yn cael eu gwireddu. Mae cyswllt â'r SAA felly'n bwysig a dylid cynnal y cyswllt hwn drwy gydol yr achos Llys.
- Paratoi Dadansoddiad Ysgrifenedig/Datganiad Sefyllfa a bod yn bresennol mewn Gwrandawriad Rheoli Achos os yw hynny'n briodol.

Cyn y Gwrandawriad Datrys Problemau (gwrandawriad Llys yn nes ymlaen yn yr achos) a'r Gwrandawriad Terfynol, bydd y Gwarcheidwad Plant yn:

- Craffu ar dystiolaeth a Chynllun Gofal terfynol yr Awdurdod Lleol ar gyfer y plentyn a, lle bo hynny'n bosib, bydd yn gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol i drafod unrhyw safbwyntiau sy'n mynd yn groes i farn yr Awdurdod.
- Trafod ac ystyried barn y plentyn am y Cynllun hwn.
- Sicrhau bod barn y rhieni am y Cynllun, ynghyd ag unrhyw gynigion eraill, yn cael eu hystyried.
- Paratoi Dadansoddiad Ysgrifenedig/Datganiad Sefyllfa a bod yn bresennol yn y Gwrandawriad Terfynol os bydd yn cael ei herio ac os bydd dystiolaeth yn cael ei chlywed. Dylid ystyried esgusodi'r Gwarcheidwad ar ôl i'r dystiolaeth gael ei rhoi.

Hefyd, gall y Gwarcheidwad Plant:

- Arsylwi ar y cyswllt rhwng y plentyn ac aelodau allweddol o'r teulu.
- Adolygu ffeiliau achos yr Awdurdod Lleol os oes bylchau yn nhystiolaeth yr Awdurdod Lleol.

- Bod yn bresennol (ac arsylwi) yng nghyfarfodydd allweddol yr Awdurdod Lleol (os yw hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur ag anghenion yr achos).

Ar ôl y Gwrandawriad Terfynol

Ar ôl i'r Llys greu Gorchymyn terfynol, daw rhan y Gwarcheidwad Plant yn yr achos i ben. Gall y Gwarcheidwad weld y plentyn (gan ddibynnu ar oedran y plentyn a faint mae'n ei ddeall) i esbonio penderfyniad terfynol y Llys.

Mae disgwyl i'r Gwarcheidwad Plant gwrdd â'r SAA, neu ddod i gysylltiad ag ef/hi, i sicrhau bod pawb yn deall y Cynllun Gofal ar gyfer y plentyn a bod y Cynllun hwnnw'n cael ei weithredu.

Achosion Gofal Brys ac achosion Amddiffyn Brys

Os yw'r Awdurdod Lleol yn gwneud cais brys i'r Llys, bach iawn o rybudd y bydd Cafcass Cymru yn ei gael ynghylch yr achosion hyn a bydd yn ymdrechu i ddod o hyd i Warcheidwad Plant i fod yn bresennol yn y gwrandawriad Llys. Ni fydd adroddiad ysgrifenedig ar gael.

Pan fo Gwarcheidwad Plant yn ymwneud ag achos, dylid cofio'r pethau hyn:

- Byddem fel rheol disgwyl i ddadansoddiad llawn gael ei lunio ar gyfer y gwrandawriad sy'n penderfynu ar leoliad parhaol y plentyn a'r trefniadau cyswllt.
- Mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth gweithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ni fydd y Gwarcheidwad Plant ar gael y tu allan oriau gwaith arferol.
- Nid yw'r Gwarcheidwad Plant yn helpu i drefnu neu i hwyluso sesiynau goruchwylio cyswllt.
- Ni all y Gwarcheidwad Plant helpu i gludo plant i wahanol lefydd.
- Nid y Gwarcheidwad Plant sy'n gwneud y penderfyniadau o ddydd i ddydd mewn achos. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod yn syth i'r Gwarcheidwad Plant ynglŷn â newidiadau sylweddol sy'n berthnasol i les plentyn, e.e. o ran ei iechyd, ei amgylchiadau byw a chyswllt â'r plentyn hwnnw.

